O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2019 Rhif 1415 (Cy. 252)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Travellers Rest, Sir Gaerfyrddin) (Terfynau Cyflymder 50 mya a 30 mya) 2019

Gwnaed	*28 Hydref 2019*
Yn dod i rym	*1 Tachwedd 2019*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd yr A40, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1)(a) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Travellers Rest, Sir Gaerfyrddin) (Terfynau Cyflymder 50 mya a 30 mya) 2019 a daw i rym ar 1 Tachwedd 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**);

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiadau

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau hynny o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 28 Hydref 2019

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1

TERFYN CYFLYMDER 50 MYA

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 2.21 o gilometrau i'r gorllewin o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Lesneven hyd at bwynt 1 cilometr i'r gorllewin o'r gyffordd honno, gan gynnwys y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd Travellers Rest.

ATODLEN 2

TERFYN CYFLYMDER 30 MYA

Y ffyrdd ymuno ac ymadael o'u cyffyrdd â phrif gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A40 hyd at bwynt 412 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r W4110 Manor Way (o'r enw Ffordd Gyswllt yr A40 i Farchnad Da Byw Caerfyrddin).

Y darn o'r gefnffordd sy'n rhan o Heol Sanclêr sy'n ymestyn o'i chyffordd â Ffordd Gyswllt yr A40 i Farchnad Da Byw Caerfyrddin tua'r dwyrain, ac yna tua'r gogledd, am gyfanswm pellter o 567 o fetrau (o'r enw Ffordd Gyswllt Ddeheuol yr A40 i Drosbont Travellers Rest).